Hawdd ei ddeall

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Y rheolau cyntaf i'w dilyn ar gyfer cyllido

## Beth mae eich sefydliad ei angen i gael arian gennym ni

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Safonau disgwyliedig gofynnol'.

**2024**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl y **Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:




**Gwefan:** communityfoundationwales.org.uk/cy/hafan



**Ebost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae Hawdd ei Deall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y llyfryn yma** .... 4

**Llywodraethiant** .... 5

**Eich arian** .... 8

**Diogelu** .... 10

**Polisïau eraill** .... 13

**Yswiriant** .... 14

# Am y llyfryn yma



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y sefydliadau rydyn ni'n rhoi arian iddyn nhw yn gwneud gwaith da o redeg pethau.




Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthych chi y pethau cyntaf mae angen i chi eu cael i gael arian gennym ni.



Mae mwy o help ar ein gwefan:
[communityfoundationwales.org.uk/cy/grantiau/pecyn-cymorth-grantiau/llywodraethu/](communityfoundationwales.org.uk/cy/grantiau/pecyn-cymorth-grantiau/llywodraethu/)



I gael arian gennym ni, mae'n rhaid i chi gael y pethau yn y llyfryn yma.

# Llywodraethiant



Mae **llywodraethiant** yn meddwl sut rydych chi'n rheoli eich sefydliad.

**Mae'n rhaid i'ch sefydliad gael:**



- **Corff Llywodraethu**. Dyma grŵp o bobl sy'n edrych i weld sut mae eich sefydliad yn gweithio.



Rhaid i'ch corff llywodraethu gael o leiaf 3 o bobl. Dydy pawb ddim yn gallu dod o'r un teulu.




Fe ddylai cyrff llywodraethu gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, bob 3 mis.

- Os ydych chi yn talu'r bobl yn eich Corff Llywodraethu:



- Mae'n rhaid i chi gael cytundeb ysgrifenedig ffurfiol. Fe ddylai ddweud beth ydy manylion y taliadau.



- Os ydych chi yn **elusen gofrestredig** mae'n rhaid i'r taliadau yma fod yn eich **dogfen lywodraethu**. Mae hyn fel eich llyfr rheolau ar gyfer eich elusen. Neu fe ddylen nhw fod mewn dogfen mae'r Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd wedi'i chytuno.



- Os ydych chi'n Gwmni Buddiannau Cymunedol, rhaid i'r taliadau fod yn eich dogfen lywodraethu.



- Fe ddylai eich Cadeirydd, Trysorydd neu Gyfarwyddwr lofnodi a dyddio eich dogfen lywodraethu.

- Rhaid i ddogfennau llywodraethu ddweud:



  - Dydy eich sefydliad ddim yn gwneud elw. Os ydy eich sefydliad yn gwneud unrhyw arian, rhaid iddo ddweud sut y byddwch chi'n defnyddio'r arian i helpu'r sefydliad.



  - Dim ond i helpu nodau eich sefydliad rydych chi'n gallu defnyddio **asedau** eich busnes.



**Asedau** ydy'r pethau mae eich sefydliad yn berchen arnyn nhw. Maen nhw'n gallu bod yn bethau fel cyfrifiaduron, adeiladau a faniau.



Os ydy eich sefydliad yn cau, rhaid rhoi eich asedau i sefydliad sydd â nodau tebyg. Mae'r gyfraith yn galw hyn yn **gymal diddymu** neu **glo asedau**.



Os ydych chi'n **Gwmni Buddiannau Cymunedol**, enwch y sefydliad fydd yn cael eich asedau os ydych chi'n cau.

# Eich arian



- Mae’n rhaid i chi roi eich cyfrifon swyddogol diweddaraf i ni. Neu bapur yn dangos pa arian sydd wedi dod i mewn ac wedi mynd allan.



Rhaid i Gadeirydd neu Drysorydd eich Corff Llywodraethu, neu Gyfarwyddwr lofnodi’r dogfennau yma. Os ydy eich dogfennau dros 18 mis oed, rhaid i chi ddweud wrthyn ni pam.




- Os ydy eich sefydliad wedi dechrau yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf, rhaid i chi hefyd anfon **rhagolwg ariannol** i ni.



Dyma ddogfen sy’n dweud beth ydych chi’n meddwl fydd yr arian fydd yn dod i mewn ac allan yn y 12 mis nesaf.



- Mae’n rhaid i chi gael 2 o bobl nad ydyn nhw yn deulu i lofnodi taliadau.




- Fe ddylai fod gan eich sefydliad gyfrif banc yn ei enw ei hun.




Pan fyddwn ni’n rhoi arian, byddwn yn ei dalu o’n banc ni i’ch banc chi.  Byddwn yn gofyn i chi roi datganiad banc diweddar i ni er mwyn profi eich manylion banc yn gyntaf.



- Rydyn ni yn **Gyllidwr Cyflog Byw**. Rydyn ni eisiau i’r sefydliadau rydyn ni’n eu cyllido dalu’r Cyflog Byw i’w gweithwyr. Mae hyn yn uwch na’r isafswm cyflog.



Rydych chi’n gallu dod yn Gyflogwr Cyflog Byw swyddogol gyda’r Living Wage Foundation.

# Diogelu




Mae diogelu yn gwneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel rhag cael eu brifo neu eu trin yn wael.

**Mae'n rhaid i'ch sefydliad gael:**



- Polisi diogelu. Dyma ddogfen sy'n dweud sut fydd eich sefydliad yn cadw pobl yn ddiogel. Mae'n rhaid i'r polisi diogelu:



- Dweud beth mae diogelu yn feddwl.



- Dweud y byddwch chi yn diogelu pawb yn eich sefydliad.



- Egluro pwy ydy'r oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r rhain yn oedolion sydd mewn mwy o berygl o niwed.



- Esbonio'r gwahanol ffyrdd mae  plant ac oedolion yn gallu cael eu hanafu.



- Dweud beth i'w wneud os bydd rhywbeth drwg yn digwydd, neu os bydd rhywun yn dweud wrthych chi eu bod yn cael eu niweidio. Fe ddylai ddweud wrth bwy i ddweud a sut i gysylltu â nhw.



- Enwi rhywun sy'n gyfrifol am ddiogelu yn y sefydliad. Rhoi cysylltiadau i'ch awdurdod lleol, yr heddlu neu fwrdd diogelu lleol.




- Dweud pryd mae rhywun wedi edrych dros y polisi ddiwethaf, pwy wnaeth hynny, a phryd mae angen edrych arno nesaf. Mae'n well edrych drosto bob blwyddyn neu pan fydd cyfreithiau'n newid.

**Mae'n rhaid i'ch sefydliad gael:**



- Hyfforddiant rheolaidd i'ch Corff Llywodraethu ar eich Polisi Diogelu.



- Hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl weithwyr a chynorthwywyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion. Mae'n rhaid i'r hyfforddiant fod yn ddiweddar ac yn cyd-fynd â'r gwaith rydych chi'n ei wneud. Fe ddylai ddysgu am eich polisïau a'ch rheolau diogelu.



- Gwiriadau DBS, Disclosure Scotland neu Access NI ar bawb sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae'r gwiriadau yma yn edrych ar eu cofnodion troseddol.

# Polisïau eraill


**Mae'n rhaid i'ch sefydliad:**




- Cael polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dyma ddogfen sy'n dweud sut fydd eich sefydliad yn trin pawb yn deg.




- Cael polisi diogelu data a dilyn y gyfraith GDPR y Deyrnas Unedig. Mae hon yn gyfraith sy'n diogelu gwybodaeth bersonol pobl.




Os ydych chi'n cadw neu'n defnyddio gwybodaeth bersonol, rhaid i chi ddilyn y gyfraith yma.



Os byddwch chi yn torri'r gyfraith yma, efallai y bydd rhaid i chi dalu dirwy. Mae mwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU: www.gov.uk/government/news/make-sure-your-charity-is-ready-for-gdpr



- Fe ddylechchi  gael polisi TG os ydy eich tîm yn defnyddio pethau fel eich cyfrifiaduron a'ch ffonau clyfar. Rhaid i'r ddogfen ddweud sut dylai pobl eu defnyddio.

# Yswiriant



Mae'n rhaid i sefydliadau gwirfoddol gael **yswiriant atebolrwydd cyflogwyr**. Dyma'r gyfraith.



Mae'r yswiriant yma yn cynnwys yr holl wirfoddolwyr a gweithwyr os ydyn nhw yn cael eu brifo neu'n sâl oherwydd eu gwaith.



Mae Llywodraeth y DU yn dweud ei bod yn dda cael **yswiriant atebolrwydd cyhoeddus** os ydych chi:

- Yn berchen ar dir neu adeiladau neu'n eu defnyddio.
- Cynnal digwyddiadau gyda'r cyhoedd.



Mae Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn helpu os bydd rhywun yn gwneud hawliad cyfreithiol yn eich erbyn. Fel os ydy rhywun yn cael eu brifo yn eich digwyddiad ac eisiau ar.